

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reoli Gwastraff The Auditor General's Report for Wales on Waste Management

Q12 Helen Mary Jones: Will the First Minister make a statement on the recent report by the Auditor General for Wales regarding waste management? (OAQ39052)

C12 Helen Mary Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr adroddiad diweddar gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar reoli gwastraff? (OAQ39052)

The First Minister (Rhodri Morgan): It would not be appropriate for me to comment on the detail of the report until the Audit Committee has concluded its consideration of this matter.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Ni fyddai'n briodol i mi wneud sylwadau ar fanylion yr adroddiad nes bod y Pwyllgor Archwilio wedi gorffen ystyried y mater.

Y Mesur Plant The Children Bill

Q13 Christine Chapman: What discussions has the First Minister had with Westminster colleagues about the Children Bill? (OAQ39037)

C13 Christine Chapman: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch y Mesur Plant? (OAQ39037)

The First Minister: I have discussed the Bill with the Secretary of State for Education and Skills and the UK Government Minister of State for Children and with the Secretary of State for Wales on many occasions. Jane Hutt and Jane Davidson have exchanged letters and held discussions with Ministers in the Department for Education and Skills and the Wales Office.

Y Prif Weinidog: Trafodais y Mesur gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau, Gweinidog Gwladol dros Blant Llywodraeth y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar sawl achlysur. Mae Jane Hutt a Jane Davidson wedi cyfnewid llythyrau ac wedi cynnal trafodaethau gyda Gweinidogion yr Adran Addysg a Sgiliau a Swyddfa Cymru.

Twf Economaidd Economic Growth

Q14 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on economic growth in Wales? (OAQ39039)

C14 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar dwf economaidd yng Nghymru? (OAQ39039)

The First Minister: Economic growth in Wales, as reflected in gross value added per head, kept pace with the UK average between 1999 and 2002, following a period of relative decline during the

Y Prif Weinidog: Yn ôl gwerth crynswth ychwanegol y pen, cadwodd twf economaidd Cymru gyfuwch â chyfartaledd y DU rhwng 1999 a 2002, wedi cyfnod o ddirywiad cymharol yn ystod

1990s. The Office for National Statistics is due to publish 2003 GVA estimates in December this year.

y 1990au. Bydd Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn cyhoeddi amcangyfrif o GYC 2003 ym mis Rhagfyr eleni.

Posibilrwydd Symud Milwyr o Gymru i Ganol Irac
The Potential Redeployment of Welsh Soldiers in Central Iraq

Q15 Alun Ffred Jones: Has the First Minister made any representations to his colleagues at Westminster regarding the potential redeployment of Welsh soldiers in central Iraq? (OAQ39044)

C15 Alun Ffred Jones: A yw'r Prif Weinidog wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i'w gydweithwyr yn San Steffan ar y posibilrwydd y bydd milwyr o Gymru'n cael eu symud i Ganol Irac? (OAQ39044)

The First Minister: I have had no specific discussions on this matter with Westminster colleagues. Assembly Members will be aware that the Black Watch battle group now deployed in central Iraq includes a squadron of the Queen's Dragoon Guards, which recruits very strongly in Wales. Our fond wishes go to them and to all other Welsh soldiers, both in that battle group and in their deployments in Iraq in their important task.

Y Prif Weinidog: Ni chefais unrhyw drafodaethau penodol am y mater hwn gyda chyd-Aelodau yn San Steffan. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol bod uned frwydro Black Watch sydd wedi ei hymfyddino yn nghanol Irac ar hyn o bryd yn cynnwys sgwadron o gatrawd Queen's Dragoon Guards, sy'n recriwtio cryn nifer o Gymru. Dymunwn yn dda iddynt a phob milwr arall o Gymru, yn yr uned frwydro honno ac yn eu hymfyddiniadau yn Irac wrth gyflawni eu tasg pwysig.